BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION CYFARFOD CHWEFROR17, 2026

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Brithdir**
**Nos Fawrth, Chwefror 17, 2026 am 7:30 o'r gloch.**

www.cyngorllanfachreth.cymru

**Presennol** Gerallt Griffith (Cadeirydd), Emlyn Roberts, Karen Goswell a Geraint Evans. Delyth Lloyd Griffiths, Henry M. Edwards.

**1. Croeso'r Cadeirydd.**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod.

**2. Ymddiheuriadau:** Rhun Prys Jones, Peredur Jenkins, Llion Williams, Aaron Roberts, Robin Jones, Meurig Ashton.

**3. Datgan diddordeb.**

Eitem 8.d. Roedd Gerallt Griffith yn datgan diddordeb ynglŷn â chau cyfrif rhif 61402277 a throsglwyddo'r arian i gyfrif y Cyngor.

**4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Ionawr 20, 2026**

Cynigwyd ac eilwyd fod y cofnodion yn gywir.

**5. Materion yn codi o'r cofnodion Ionawr 20, 2026**

Eitem 5. Eitem 10. h. Oes gan rywun ddiddordeb llenwi'r swydd Clerc?
Penderfynwyd i Un Llais Cymru rhoi hysbysiad am Glerc. Rhoi hysbyseb ar ein hysbysfyrddau. Hefyd mae Delyth am ofyn i Gyngor Gwynedd i roi'r hysbysiad ar eu gwefan.

Eitem 5. Eitem 5. Eitem 5. Eitem 6.b.
Roedd angen cwblhau holiadur Ffurflen Cwblhau Prosiect ynglŷn â'r gwaith cafwyd ei wneud gyda'r hysbysfyrddau a'r meinciau. Gofynnwyd i'r aelodau (21/1/2025) am eu help i ateb:
'Pe bai cyfleoedd tebyg i'r cyllid hwn ar gael yn y dyfodol, beth fyddai eich blaenoriaethau? Mae croeso i chi rannu unrhyw syniadau neu brosiectau yr hoffech eu datblygu. Mae hyn yn ein helpu i ddeall anghenion lleol a chynllunio'n wel tuag at y dyfodol.'
Ni dderbyniwyd ymateb gan yr aelodau.
Anfonwyd (26/1/1026) holiadur Ffurflen Cwblhau Prosiect a lluniau y meinciau a'r hysbysfyrddau i'r Swyddog Prosiect Adfywio (Gwynedd Ni).

**6. Gohebiaeth**

a. Eitem 6.ff. Llythyr ateb (26/1/2026) oddi wrth Priffyrdd, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd y mater yn cael ei drafod gyda'r Gweithlu ynglŷn â gweithredu gydag aradr.

Wedi gwneud ymoliadau gyda'r Priffyrdd cafwyd gwybod:

1. bydd anfoneb yn cael ei anfon i ni am osod y bin halen rhoddwyd rhwng Esgair Gawr a Gernant.
2. nid oes hawl gan eraill osod bin halen ar rwydwaith ffyrdd cyhoeddus. Mae gan Priffyrdd restr o finiau sydd wedi eu gosod a byddant yn llenwi'r biniau hyn. Petai bin wedi ei osod gan eraill ni fydd Gwasanaeth yn ei wasanaethu. Hefyd ni fydd Priffyrdd yn gyfrifol petai y bin yn creu unrhyw niwed i berson neu gerbyd; fydd y cyfrifoldeb yno ar y sawl sydd wedi ei osod.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau

<u>Penderfynwyd</u> i Delyth gwneud ymoliadau â Chyngor Gwynedd ynglŷn â chostau binniau halen newydd /ail-law.

b. Llythyr (9/2/2026) oddi wrth Swyddog Cefnogi Cymunedau ym Meirionnydd, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod mae Ynni Cymru yn lansio grant gwerth £10M ar gyfer prosiectau system ynni lleol i bweru gweithrediadau cyffredinol, gwres, trafnidiaeth. Bydd cyfarfod Webinar ar 26/2/2026 yn rhoi gwybodaeth.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau

c. Llythyr (9/2/2026) oddi wrth Bwrdd Iechyd Hywel Dda yn rhoi gwybod maent yn gwahodd pobl i roi eu barn ar wasanaeth fferyllol cymunedol lleol i gefnogi ailysgrifennu ei Asesiad Anghenion Fferyllol. Mae'r arolwg yn cau 9/3/2026.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau

**7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

a. Cais cynllunio NP5/54/481. Adeiladu estyniad ochr deulawr. Bron Llywarch, Rhydymain.

<u>Penderfynwyd</u> cefnogi'r cais am y rheswm bydd cyfle i adeiladwyr lleol cael gwaith. Hefyd, bydd yr eiddo yn edrych yn smart ac y gartrefol.

b. Cais cynllunio NP5/54/261B. Adeiladu rampiau a stepiau allanol, ail-doi yn cynnwys codi uchder y brîg gan 300mm, gosod rendr allanol a insiwleiddio'r wal allanol. Neuadd Bentref, Brithdir.

<u>Penderfynwyd</u> cefnogi'r cais am y rheswm mae'r adeilad yn bwysig i'r gymuned.

**8. Materion Ariannol**

a. Derbyniwyd (9/1/2026) £177.18 oddi wrth Cyngor Gwynedd at Grant 'Gwynedd Ni' am fainc.

b. Derbyniwyd (9/1/2026) £1,311.64 oddi wrth HMRC at ad-daliad TAW am y cyfnod 1/4/2024 – 31/12/2025.

c. Derbyniwyd (28/1/2026) ad-daliad £490.30 oddi wrth Gyngor Gwynedd tuag at glirio llwybrau.

ch. Bil (30/1/2026) am £362.67 oddi wrth Cyngor Gwynedd tuag gosod y bin halen rhoddwyd rhwng Esgair Gawr a Gernant.

Penderfynwyd talu'r bil.

d. Llythyr (12/2/2026) oddi wrth Gerallt yn rhoi gwybod mae'r diffibriliwr sydd yn gwasanaethu Llanfachreth yn mynd i gael ei ail leoli i safle ynghanol y pentref ar bostyn lamp. Mae angen bocs ac offer newydd i wneud hyn, sydd yn mynd i gostio £550.
A fyddai yn bosib defnyddio yr arian sydd yn weddill yn cyfrif Banc rhif 61402277 at yr achos yma?

Mae £162.10 yn y cyfrif.
Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Penderfynwyd cau'r cyfrif a throsglwyddo'r arian i gyfrif y Cyngor. Hefyd, talu'r bil wedi i ni ei gael gan Neuadd Llanfachreth.

dd. Ceisiadau derbyniwyd am gymorth ariannol:

Cerebral Palsy Cymru, Urdd Gobaith Cymru, Elusen Ambiwlans Awyr Cymru, Llên y Llannau, Marie Curie, Theatr Bara Caws, Kids Cancer Charity, Sioe Rhydymain, Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen, Eisteddfod Gadeiriol Llanfachreth.

e. Llythyr (5/11/2024) oddi wrth Llywodraeth Cymru. Swm priodol o dan Adran 137(4)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 – terfyn gwariant adran 137 ar gyfer 2025-26. Maent yn rhoi gwybod gall Cynghorau Cymuned wario ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26 o dan adran 137 (1) a (3) £11.10 fesul etholwr er budd yr ardal.

Bydd yr uchafswm yn £11.10 x 621 = £6,893.10.

f. Penderfynwyd rhoi arian i sefydliadau canlynol:

Adran 137(4) (a) Deddf Llywodraeth Leol 1972:
Ambiwlans Awyr Cymru - £250
Llên y Llannau - £50.

Adran 145 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (adloniant, celfyddydau):
Eisteddfod Gadeiriol Llanfachreth - £350.
Urdd Gobaith Cymru - £100.
Sioe Rhydymain - £350.

Adran 19 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 (cyfleusterau hamdden):

Clybiau Ffermwyr Ifanc Meirionnydd - £350

Adran 133 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (adeiladau ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus):

Neuadd Brithdir: £800
Neuadd Rhydygorlan: £800
Neuadd Llanfachreth: £800
Neuadd Rhydymain: £800

Cyfanswm = £4,650.00.

ff. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29/1/2026: £162.10.
Balans yn y banc ar 29/1/2026: £9,107.92.

**9. Archwilio**

**10. Materion yr Aelodau**

a. Mae angen cadarnhau Rhaglen Asesiad Risg 2025 - 2026.
Anfonwyd copi i'r aelodau.
Penderfynwyd cadarnhau'r Rhaglen Risg.

b. Mae angen cadarnhau Asedion 2025 – 2026
Anfonwyd copi i'r aelodau.
Penderfynwyd cadarnhau'r Asedion.

c. Mae angen cadarnhau ein polisiau sef: Cod Ymddygiad Aelodau, Rheolau Sefydlog, Rheoliadau Ariannol, Polisi Iaith, Protocol Datrysiad, Cynllun Hyfforddiant.

Mae'r polisiau ar wefan y Cyngor. Nid yw'r polisiau wedi cael eu newid yn ystod y flwyddyn.

Penderfynwyd bod y polisiau yn gywir.

ch. Trwy law Rhun mae Mr Wyn Rowlands, Llwyn yr Helm, Brithdir. (wyn@rowlandsfabrication.co.uk) yn dymuno fod yn aelod o'r Cyngor.

Penderfynwyd derbyn Mr Wyn Rowlands yn aelod ac mi fydd yn cynrychioli Ward Brithdir.

d. Mae Meurig yn ymddiswyddo o'r gwaith o glirio llwybrau yn y gymuned.

Penderfynwyd derbyn ymddiswyddiad Meurig gyda dristwch. Mae Meurig wedi bod yn gwneud y gwaith o glirio'r llwybrau a gofalu am y llochesi fysau ers 2003 ac mae'r Cyngor yn hynnod o ddiolchgar iddo am ei waith.

Penderfynwyd hefyd gwneud ymoliadau â Meurig am restr o'r llwybrau roedd yn gofalu am ac am syniadau o gontractwyr bydd â ddiddordeb i gymryd drosodd gwneud y gwaith.

**11. Adroddiad Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths**

a. Llythyr (27/1/2026) oddi wrth Rheolwyr Prosiect, Adran Tai ac Eiddo, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod maent am drefnu cyfarfod gyda ni i ddangos drafft safle Machreth. Ac ymhellach ymlaen sesiwn agored i'r gymuned.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Penderfynwyd gwadd y Swyddog i'n cyfarfod mis Mawrth 17, 2026 yn Neuadd Llanfachreth.

b. Bu i etholwr dynnu fy sylw at goeden oedd yn edrych fel ei fod am ddisgyn ar dir yr Ysgol yn Rhydymain yn Awst 2025.
Bu i mi ofyn i'r Cyngor archwilio'r coed yn y lleoliad. Ar ôl eu harchwilio, daeth Eric Wyn Jones ( Tai ac Eiddo) yn ôl ataf heddiw (16/2/2026).
Y canlyniad oedd, nad oedd y coed yn anniogel ar ôl asesiad llawn.

c. Cyllid Cyngor. Ar gyfer y flwyddyn i ddod bydd 5.4m o ddiffyg sydd dipyn gwell na beth oedd y Cyngor wedi ei ofni. Roedd y setliad gan Lywodraeth Cymru yn dipyn gwell nad oeddem wedi ei ddisgwyl. Bydd treth y Cyngor yn codi o 4.9% yn Ebrill 2026. Mae hyn oherwydd cynnydd yn y costau yn arbennig gofal oedolion a gwasanaethau plant. Ni fydd unrhyw doriadau newydd i wasanaethau'r Cyngor yn ystod y flwyddyn i ddod.

ch. Neil Foden. Mae Cyngor Llawn wedi ei gynnal i graffu ar raglen adfer y Cyngor yn dilyn Achos llys Neil Foden yn 2023. Cyflogwyd Sally Holland cyn comisiynydd Plant Cymru i weithio ar y cynllun gwella gwasanaethau. Mae Margaret Davies o Geredigion wedi derbyn y swydd fel Pennaeth Ysgol Friars ar gyflog o £105,000. Bu i mi ofyn yn y Cyngor llawn am wybodaeth fanwl am y gwariant ar wasanaethau therapi ar gyfer yr holl ddioddefwyr yr ydym yn gwybod amdanynt. Rwyf yn dal i ddisgwyl gwybodaeth lawn gan swyddogion. Cafwyd arolwg gan Estyn yn niwedd 2025 ac mi oedd y gwasanaeth yn ddigonnol.

d. Man Ddaliadau. Cefais y cyfle i ofyn cwestiwn am y man ddaliadau yn y Cyngor Llawn ym Mis Rhagfyr 2025. Mae £2.1m wedi dod i'r Cyngor ar gyfer tai fferm ar y man ddaliadau yn dilyn ymgyrch gennyf fi ac eraill yn y Cyngor. Yr wyf yn sicrhau fod pob cartref wedi ei asesu cyn i'r gwelliannau gael eu gwneud. Yn ogystal â thai fferm mae nifer o faterion yn codi gan fod yr adeiladau fferm mewn cyflwr gwael iawn. Yr wyf yn parhau i sicrhau gwelliannau ar yr eiddo yn y ward.

dd. Coed y Brenin. Mae NRW wedi rhoi'r cytundeb i redeg y ganolfan a hefyd safle Maesgwm allan i ymgeiswyr. Mae Caru Coed y Brenin yn ymgeisio. Mae Caru Coed y Brenin yn cael ei arwain gan Rhys Llywelyn. Mae'r ceisiadau i fod i mewn cyn Ebrill 2026 a bydd NRW yn eu hasesu ym Mis Awst 2026.

e. Cyfnewid eiddo, sef tai cymdeithasol Adra. Ar ôl i mi gael cynnig o flaen y Cyngor Llawn yn 2025 bu i mi gael newyddion da yn ddiweddar, sef fod y cartref, sydd yn eiddo i Adra, erbyn hyn yn gartref i deulu lleol iawn. Yr oeddwn yn gwrthwynebu'r arfer cyfreithiol o gyfnewid tai cymdeithasol ar draws Cymru a Lloegr.

Llofnod: Dyddiad: